O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 40 (Cy. 15)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *12 Ionawr 2011*

*Yn dod i rym* *24 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Ionawr 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 24 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A4232 o Gyfnewidfa Llanilltern i Gyfnewidfa Croes Cwrlwys yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

2) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys yn gwyro oddi ar brif gerbytffordd y gefnffordd hyd at bwynt wrth ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Llanilltern.

3) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Llanilltern hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys yn gwyro oddi ar brif gerbytffordd y gefnffordd.